**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **27 Gorffennaf 2015**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Cynghorydd Julian Thompson-Hill**

**Awdur yr Adroddiad:** **Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid**

**Teitl:** **Astudiaeth Genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru - Cydnerthedd Ariannol Cynghorau yng Nghymru**

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Mae astudiaeth genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru ar gydnerthedd trefniadau rheoli a chynllunio i gefnogi cydnerthedd ariannol ym mhob cyngor, gan ganolbwyntio ar y modd y mae cynghorau yn cynllunio a chyflwyno eu hymrwymiadau cyllideb.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Cyflwyno adroddiad astudiaeth genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Ystyried yr adroddiad a’r argymhellion a wnaed.

Cytuno i dderbyn diweddariad pellach ym mis Ionawr 2016 gan y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cwblhau asesiad manylach sy’n ceisio ‘archwilio iechyd ariannol awdurdodau, ynghyd â’r modd y maent yn gosod cyllidebau a chyflawni’r arbedion sydd eu hangen, er mwyn rhoi sicrwydd bod awdurdodau yn gydnerth yn ariannol’.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y teitl ‘Cydnerthedd Ariannol Cynghorau yng Nghymru' ynghlwm.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 a chyflawniad cynlluniau ariannol 2013-14. Mae hefyd yn dadansoddi record y cynghorau o ran perfformiad ariannol yn 2011-12 a 2012-13. Bydd y cyngor yn ystyried yr adroddiad a’r argymhellion a wneir yn ofalus.

Diwygiwyd proses y cyngor o osod cyllideb yn sylweddol yn ystod 2014/15 i ystyried arbedion ar gyfer 2015/16 a 2016/17. Diweddarwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn 2014 ac mae’n cael ei adolygu ar hyn o bryd i’w gyhoeddi yn yr hydref. Bydd canfyddiadau perthnasol yr astudiaeth ac arfer gorau yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig, a fydd yn cynnwys strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr. Mae'r

cyngor wedi cyflwyno cyllidebau cytbwys bob blwyddyn ac yn hyderus y bydd ei brosesau yn parhau i wneud hynny.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae trefniadau cynllunio, rheoli a llywodraethu ariannol cadarn yn sail i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae canfyddiadau'r astudiaeth a'r argymhellion yn cael eu hystyried gan y bydd canfyddiadau'r asesiad mwy penodol o gydnerthedd ariannol y cyngor dros y misoedd nesaf.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r astudiaeth yn amlinellu risgiau ac argymhellion ar lefel genedlaethol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Cynhyrchwyd yr adroddiad o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus 2004 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.